

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

17.06.2019

Ystafell Bwyllgor, Y Swyddfeydd Dinesig

Presennol	Sefydliad
Alun Morgan (AM)	Heddlu De Cymru
Alyson Francis (AF)	Llywodraeth Cymru
Chris Hadfield (CH)	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Claire Irwin (CI)	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Cllr Huw David (Cllr HD)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Cllr Richard Young (Cllr RY)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Cllr Rod Shaw (Cllr RS)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Deanne Martin (DM)	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Donna Baddeley (DB)	Cymoedd I'r Arfordir
Gavin Bown (GB)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Heidi Bennett (HB)	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Ieuan Sherwood (IS)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Joe Baldwin (JB)	Coleg Penybont
Marcus Longley (ML)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Mark Shephard (MS)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Matthew Bennett (MBen)	Adran Gwaith a Phensiynau
Paul Mee (PM)	Cyngor Bwrdeistref Sirol RCT
Richard Hughes (RH)	Awen
Sarah Mills (SM)	Cyngor Bwrdeistref Sirol RCT
Steve Davies (SD)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Susan Cooper (SC)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Helen Hammond (HH)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Judith Jones (JJ)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Lewis Edwards (LE)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Ymddiheuriadau	
Claire Evans (CE)	Heddlu De Cymru
Eirian Evans (EE)	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Huw Jakeway (HJ)	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
John Hogg (JH)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Katy Chamberlain (KC)	Business in Focus
Simon Pirotte (SP)	Coleg Penybont
Martin Morgans (MM)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr

Eitem ar yr Agenda	Sylwadau	Cam Gweithredu
1	Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau	

1.1	Croesawodd MB bawb i'r cyfarfod a gofynnodd am gyflwyniadau. Cofnodwyd ymddiheuriadau fel a nodir uchod.	
2	Penderfyniad Arfaethedig i Gau Ffatri Ford Pen-y-bont	
2.1	Agorodd MS y drafodaeth ynglŷn â'r cyhoeddiad diweddar ynghylch cau ffatri Ford ym Mhen-y-bont ac fe gylchredodd wybodaeth.	
2.2	Fe amlinellodd IS y sefyllfa bresennol, yr effaith y bydd yn ei chael, amserlen ar gyfer ymateb a meysydd ffocws fel partneriaid y BGC.	
2.3	Galwodd MS am gefnogaeth gan y BGC.	
2.4	Dywedodd HD nad ydym wedi gweld swyddi'n cael eu colli ar y fath raddfa ers cau'r pyllau, rhywbeth y mae llawer o gymunedau'n dal heb ddod drosto.	
2.5	Dywedodd HD fod arnom angen i'r cyfleoedd ar gyfer cymorth fod yn hyblyg a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lacio rhai o'r rheolau cymhwystra ar gyfer rhaglenni cyflogaeth.	
2.6	Soniodd AF am y 'Tasglu' a oedd wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru ac a gefnogir gan Lywodraeth y DU. Bydd yr Amodau Gorchwyl yn cael eu cyhoeddi wythnos nesaf.	
2.7	Pwysleisiodd RY y bydd cau'r ffatri'n effeithio nid dim ond ar Ben-y-bont ar Ogwr ond ar Dde Cymru i gyd, a bod angen i ni sicrhau cymorth gan Lywodraeth y DU yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn disgwyl cymorth tebyg i'r hyn a gynigir mewn ardaloedd eraill yn y DU.	
2.8	Ar ôl y drafodaeth cytunodd y Bwrdd y byddai'n cefnogi camau gweithredu fel y bo angen, i ymateb yn gyflym i geisiadau am gymorth ac i ddefnyddio'r strwythur islaw'r bwrdd i sefydlu gweithgorau os oes angen.	
2.9	Gofynnodd MS fod y Bwrdd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am gadarnhad o'i chynlluniau o ran rhoi pecyn cymorth i Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Cam Gweithredu: Cadeirydd i ddrafftio llythyr ar ran y Bwrdd.	MB
3	Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 10.12.18 a materion yn codi	
3.1	Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi na chamau gweithredu heb eu cymryd.	
4	Rhaglen Interneiaethau â Chymorth	
4.1	Cyflwynodd JB y Cynllun Interneiaethau â Chymorth, roedd 9 intern wedi'u lleoli eleni yn Ysbyty Tywysoges Cymru o ddydd Llun i ddydd Gwener.	
4.2	Chwaraeodd JB fideo byr sy'n manylu'n fwy ar y gwaith a wneir a sut y mae wedi effeithio ar eu dysgwyr.	
4.3	Cam Gweithredu: cyflwyniad i gael ei gylchredeg.	LE
5	Strategaeth Gomisiynu Cwm Taf ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	
5.1	Amlinellodd PM y gwaith a wnaed hyd yma mewn perthynas â Strategaeth Gomisiynu Cwm Taf ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.	

5.2	Fe wnaeth asesiad o anghenion y boblogaeth nodi bod gwasanaethau'n cyflawni deilliannau da i ddioddefwyr cam-drin domestig yng Nghwm Taf, ond bod angen heb ei ddiwallu, anghysonderau o ran y ddarpariaeth, bod gwasanaethau'n seiliedig ar risg yn hytrach nag anghenion, bod darpariaeth gyfyngedig i oroeswyr trais rhywiol, ychydig o gymorth uniongyrchol i blant mewn teuluoedd lle'r oedd cam-drin domestig yn bresennol. Diffyg cyllid cynaliadwy	
5.3	Canfu Grŵp Llywio Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf angen i adolygu'r model ac ystyried dull comisiynu newydd.	
5.4	Cyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i brynu gwasanaeth ymgynghorydd i gefnogi'r gwaith hwn, ac asesiad anghenion ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr.	
5.5	Adroddiad wedi'i gwblhau ac wedi'i groesawu'n eang gan bartneriaid Cwm Taf. Cam Gweithredu: JJ i gylchredeg yr asesiad o anghenion y boblogaeth a'r strategaeth gomisiynu o ran Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i'r Bwrdd.	JJ
5.6	Mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth o ran Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn nodi'r un blaenoriaethau â Chwm Taf fwy neu lai.	
5.7	Mae'r cynigion ar gyfer newid yn sylweddol ac mae angen gwaith i ddatblygu'r model gwasanaeth ac archwilio beth sy'n ymarferol o ystyried y cyfyngiadau o ran cyllid. Cefnogir yr agenda hon gan gyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r grant cymorth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Disgwylid Llywodraeth Cymru yw bod hyn yn cael ei wneud ar lefel ranbarthol.	
5.8	Mae cryn dipyn o'r cyllid a weinyddir trwy awdurdodau lleol yn dod trwy'r Grant Cymorth Tai (Cefnogi Pobl gynt). Mae'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol wedi cael ei gydgysylltu ledled y rhanbarth, ac felly hefyd y Bwrdd Diogelu a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y mae ganddynt i gyd gysylltiadau cryf â'r agenda hon.	
5.9	Gan ystyried yr uchod fe gytunodd y Bwrdd mewn egwyddor y byddai'n newid i fodel comisiynu rhanbarthol.	
6	Adroddiad Blynyddol	
6.1	Rhoddodd JJ ddiweddiariad am yr adroddiad blynyddol, a fydd yn cynnwys adroddiad naratif a gylchredwyd yn flaenorol, ffeithluniau a 5 ffilm fer yn rhoi sylw i'r cynnydd.	
6.2	Dangosodd JJ 2 glip drafft byr i roi blas ar sut y byddant yn edrych.	
6.3	Eglurodd HH y byddai'r adroddiad yn mesur cynnydd a rôl y dangosyddion cenedlaethol. Wedyn cyfeiriodd at ffeithluniau sy'n dangos mwy o'r hanes y tu ôl i'r ystadegau.	
6.4	Gofynnodd HD am ddiwygio'r eitem ar ofal plant yn Dechrau Gorau mewn Bywyd i adlewyrchu'r cynnig gofal plant newydd o 30 awr yr wythnos ac fe awgrymodd y dylid cynnwys rhagor o	

	fanylion am brosiect Datblygu ar y Cyd Cwm Taf mewn perthynas â rhannu data. Cam Gweithredu: diwygio cyn cyhoeddi	Tîm cymorth
6.5	Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am roi'r adroddiad at ei gilydd ac ar ôl gwneud y diwygiadau uchod bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 4 Gorffennaf 2019.	
6.6	Anogodd MB holl bartneriaid y BGC i gyhoeddi'r adroddiad blynyddol a'r fideos ar eu gwefannau eu hunain a'u hyrwyddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol.	
7	Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB)	
7.1	Rhoddodd SC a SD gyflwyniad cynhwysfawr ar ddatblygiad partneriaethau rhanbarthol a'r cynlluniau Ardal	
7.2	Roedd Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Bae'r Gorllewin wedi cael ei gyhoeddi yn 2017, ond roedd wedi'i ddylunio fel bod modd i ddata Pen-y-bont ar Ogwr gael ei 'godi allan'	
7.3	Fe wnaeth y ddau ranbarth nodi blaenoriaethau tebyg ond gwahanol y mae angen eu cysoni.	
7.4	Datblygodd Cwm Taf Morgannwg fel rhanbarth newydd ac nid dim ond Pen-y-bont ar Ogwr yn ymuno â Chwm Taf.	
7.5	Cam Gweithredu: cyflwyniad i gael ei gylchredeg i'r Bwrdd.	JJ
8	Ymgysylltu â BGC Cwm Taf	
8.1	Digwyddiad Llywodraeth Cymru yn gynnar ym mis Mawrth i archwilio'r berthynas rhwng BGCau a BPRhau	
8.2	Cyfarfod dilynol ar 11 Mehefin i gytuno sut i fwrw ymlaen.	
8.3	Timau cymorth Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr i nodi blaenoriaethau cyffredin yn y ddau gynllun llesiant a chroesgyfeirio â chynllun ardal Cwm Taf.	
8.4	Cam Gweithredu: Gweithdy ar y cyd i gael ei cynnal gyda 3 aelod o'r bwrdd i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer meysydd gwaith cyffredin.	Tîm Cymorth
9	Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Amodau Gorchwyl a strwythur llywodraethu	
9.1	Rhoddodd RY drosolwg o Wasanaeth Troseddau Ieuencid Pen-y-bont ar Ogwr.	
9.2	Roedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi penderfynu gadael prosiect cydweithredol Bae'r Gorllewin cyn arolygiad siomedig iawn Arolygiaeth Prawf EM o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Bae'r Gorllewin.	
9.3	Cyfarfu Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Pen-y-bont ar Ogwr am y tro cyntaf ar 10 Mehefin. Mae diwrnod datblygu yn yr arfaeth ar gyfer 11 Gorffennaf.	
9.4	Bydd y Bwrdd Rheoli'n cwrdd yn fisol i ddechrau.	
10	Adolygiad o'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed	
10.1	Rhoddodd AM ddiweddariad am yr adolygiad blynyddol o Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Pen-y-bont ar Ogwr.	
10.2	Pedwar achos o hunanladdiad a gwblhawyd wedi'u hadolygu, rhestrau aros wedi'u herio.	

10.3	Gofynnodd CE am rannu'r cynnydd gyda'r Bwrdd Atal Hunanladdiad Cenedlaethol.	
10.5	Dywedodd JJ fod angen nodi pwy sy'n arwain ar amcanion 4 a 5. Cam Gweithredu: JJ i anfon neges e-bost at ML i gael eglurhad.	JJ
10.6	Gofynnodd JJ i'r Bwrdd ystyried perchnogaeth ar y strategaeth. Mae CE wedi cwestiynu ai HDC yw'r 'perchnogion' cywir. Awgrymodd HB y dylid cysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cam Gweithredu: JJ i anfon neges e-bost at ML i gael cyngor.	JJ
11	Panel Trosolwg a Chraffu'r BGC	
11.1	Diolchodd RS am y gwahoddiad i ddod i gyfarfod y BGC.	
11.2	Llongyfarchodd y Bwrdd ar eu dull agored a thryloyw, a'r cynnydd sylweddol a wnaed hyd yma. Roedd y Panel Craffu'n croesawu'r cyfle i fod yn rhan o waith yr is-fyrddau	
11.3	Y Panel Craffu i fod yn gyfaill beirniadol ac yn eiriolwr ar gyfer gwaith y BGC mewn cymunedau.	
12	Unrhyw Fater Arall	
12.1	Hysbysodd AM am yr ymgynghoriad ar ailstrwythuro'r HDC.	
12.2	Hoffai HD strategaeth gydgyssylltiedig â BIPCTM ar iechyd meddwl, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc.	
13	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
13.1	Efallai y bydd angen cyfarfodydd ychwanegol, cyfarfod cadeiryddion ar 23 Medi i fod yn gyfarfod BGC llawn Cam Gweithredu: JJ i anfon gwahoddiadau	JJ